



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## DISGRIFIAD SWYDD

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>Uwch Ddarlithydd mewn Technoleg Ddeintyddol</b>
<b>Ysgol:</b>	<b>Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Campws Llandaf</b>
<b>Gradd:</b>	<b>8 AB</b>
<b>Cyflog:</b>	<b>£51,283 - £59,421 y flwyddyn</b>
<b>Oriau:</b>	<b>37 awr yr wythnos</b>
<b>Daliadaeth:</b>	<b>Parhaol</b>

### **Crynodeb o'r Rôl:**

Bydd deiliad y swydd yn addysgu Technoleg Ddeintyddol ar raglenni cymeradwy a gynigir gan yr Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd ac yn nodi meysydd darpariaeth newydd i ehangu uned hynod arbenigol.



## PROFFIL Y RÔL

### Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

#### Cymorth addysgu a dysgu

- Dylunio a chyflwyno deunydd addysgu ar draws y modiwlau prosthodonteg sefydlog a/neu symudadwy ac o fewn maes pwnc cyfan technoleg ddeintyddol.
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwylio prosiectau myfyrwyr, a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo hynny'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth gyfredol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr.

#### Ymchwil ac ysgolheictod

- Cymryd rhan mewn gweithgaredd/ymchwil ysgolheigaidd pwnc, proffesiynol ac addysgeg yn ôl yr angen i gefnogi gweithgareddau addysgu.
- Cymryd rhan mewn prosiectau ysgolheigaidd unigol neu gydweithredol.
- Cefnogi nodi ffynonellau cyllid a chyfrannu at y broses o sicrhau arian ar gyfer eich gweithgareddau ysgolheigaidd eu hunain.
- Ymestyn, trawsnewid a chymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ysgolheictod i addysgu a gweithgareddau allanol priodol.
- Datblygu a chynhyrchu deunyddiau dysgu a lledaenu canlyniadau gweithgareddau ysgolheigaidd.

#### Cyfathrebu

- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

#### Cyswllt a rhwydweithio

- Cymryd rhan a helpu i ddatblygu rhwydweithiau mewnol ac allanol er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ysgolheictod.

#### Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chyngor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl iddynt oruchwylio gwaith pobl eraill.
- Cydlynu gwaith pobl eraill er mwyn sicrhau bod y modiwlau'n cael eu danfon i'r safonau gofynnol.

#### Gwaith tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunir, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

#### Gofal bugeiliol

- Gweithredu fel tiwtor modiwl.
- Fod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodol.

## **Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau**

- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau ar gyfer hyrwyddo'r pwnc:
  - e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso canlyniadau ysgolheictod.
  - e.e. Cyfrifoldeb am ddylunio a darparu modiwlau a dulliau asesu ei hun.
  - e.e. Cydweithio â chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu.
  - e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio myfyriwr a marchnata.
  - e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a prosesau rheoli ansawdd.
  - e.e. Mynd i'r afael â materion sy'n effheithio ar ansawdd y cyflenwi o fewn y cwmpas o'ch lefel cyfrifoldeb eich hun, gan gyfeirio materion mwy difrifol i eraill, fel y bo'n briodol.

## **Cynllunio a rheoli adnoddau**

- Fel arweinydd modiwlau neu diwtor, cydlynw ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academiaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyriwyr yn cael eu diwallu.
- Gweithredu fel Arweinydd Llwybr ar y rhaglen MSc Ymarfer Uwch (Technoleg Ddeintyddol).
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'u maes gwaith eu hunain a threfnu gweithgareddau allanol fel lleoliadau a theithiau maes.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.
- Bod yn gyfrifol am ddyletswyddau gweinyddol mewn meysydd megis derbyniadau, cyflwyno amser, arholiadau, asesu cynnydd a phresenoldeb myfyriwyr.

## **Gofynion synhwyrdd, corfforol ac emosiynol.**

- Cydbwysu pwysau addysgu a gofynion gweinyddol a therfynau amser sy'n cystadlu.

## **Amgylchedd gwaith**

- Yng nghyd-destun polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar faes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbynnir, gellir disgwyl iddynt gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill.

## **Arbenigedd**

- Yn meddu ar ddigon o ehangder neu ddyfnder o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio ystod o dechnegau cyflwyno.

## **Hysbysiad Safonol**

**Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**



**MANYLEB PERSON**

Teitl y Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Technoleg  
Ddeintyddol

---

Ysgol/Uned: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd  
Caerdydd

---

\*Allwedd  
Ff - Ffurflen gais  
C - Cyfweiliad  
Cyfl - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR GAN		
		Ff*	C*	Cyfl*
<b>Addysg a chymwysterau (Hanfodol)</b>	Gradd anrhydedd dda neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol mewn Technoleg Ddeintyddol.  Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.  Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o dair blynedd.	✓  ✓  ✓	   ✓	
<b>Addysg a Chymwysterau (Dymunol)</b>	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.  Cymhwyster lefel arbenigol mewn Technoleg Ddeintyddol neu Gymhwyster mewn Technoleg Deintyddol Clinigol  Aelodaeth o gorff proffesiynol.	✓  ✓ ✓		
<b>Gwybodaeth (Hanfodol)</b>	Gwybodaeth am weithdrefnau, technegau a deunyddiau Technoleg Ddeintyddol  Gwybodaeth fanwl am dechnoleg ddeintyddol ddigidol.  Y gallu i gynllunio a chreu cynnwys a chyrsgiau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).  Dealltwriaeth dda o andragogeg.  Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.	   ✓  ✓  ✓	✓  ✓	✓  ✓
<b>Gwybodaeth (Dymunol)</b>	Lefel arbenigol o wybodaeth mewn technoleg ddeintyddol glinigol	✓	✓	
<b>Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl</b>	Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu a defnyddio dulliau asesu priodol.	✓  ✓	✓  ✓	

<b>(Hanfodol)</b>	<p>Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol a datblygu gweithgareddau ysgol eraill.</p> <p>Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol.</p> <p>Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.</p> <p>Y gallu i adnabod meysydd i'w gwella a defnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad.</p> <p>Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol megis arweinydd llwybr rhaglen, arweinydd modiwl, tiwtor modiwl, a goruchwyliwr ymchwil.</p> <p>Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu, canlyniadau gweithgaredd ysgolheigaidd, adborth ac ati.</p> <p>Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.</p> <p>Y gallu i gydweithio drwy ddatblygu partneriaethau priodol.</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>
<b>Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)</b>	<p>Y gallu i ysgrifennu a datblygu rhaglenni newydd o fewn Sefydliad Addysg Uwch</p> <p>Y gallu i gynllunio ac ysgrifennu rhaglenni sy'n bodloni disgwyliadau Sicrwydd Ansawdd Addysg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>Y gallu i gynllunio, rheoli a gweithredu triniaethau ar gyfer cleifion o dan Gwmpas Ymarfer Technegydd Deintyddol Clinigol</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>
<b>Profiad â Thâl/ Di-dâl (Hanfodol)</b>	<p>Profiad o addysgu/gweithgaredd ysgolheigaidd neu gymhwyster cyfatebol.</p> <p>Profiad o ddenu neu gynhyrchu arian / incwm trwy amrywiaeth o ffynonellau.</p> <p>Profiad o weithio gydag eraill mewn rôl oruchwylio/arwain/cefnogi/mentora.</p> <p>Profiad amlddisgyblaethol helaeth mewn Technoleg Ddeintyddol a gweithio yn y sector cyhoeddus a/neu fasnachol.</p> <p>Profiad o ddehongli deddfwriaeth yn broffesiynol.</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>

<b>Profiad â Thâl / Di-dâl (Dymunol)</b>	<p>Profiad o addysgu ac ysgolheictod mewn addysg uwch.</p> <p>Profiad o waith o fewn cymdeithasau proffesiynol yn ymwneud â Thechnoleg Ddeintyddol</p> <p>Profiad o weithio gyda chleifion o dan Sgôp Ymarfer Technegydd Deintyddol Clinigol</p>	✓	✓	
<b>Gofynion eraill (Hanfodol)</b>	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd.	✓		
<b>Gofynion eraill (Dymunol)</b>				
<p>Sgiliau Cymraeg</p> <p><b>Gwranddo (Dymunol)</b></p>	<p><u>Gwranddo</u></p> <p><b>A1 - Dechreuwr</b> Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.</p>	✓		
<p>Sgiliau Cymraeg</p> <p><b>Darllen (Dymunol)</b></p>	<p><u>Darllen</u></p> <p><b>A1 - Dechreuwr</b> Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.</p>	✓		
<p>Sgiliau Cymraeg</p> <p><b>Siarad (Dymunol)</b></p>	<p><u>Siarad</u></p> <p><b>A1 - Dechreuwr</b> Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.</p>	✓		
<p>Sgiliau Cymraeg</p> <p><b>Ysgrifennu (Dymunol)</b></p>	<p><u>Ysgrifennu</u></p> <p><b>A1 - Dechreuwr</b> Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.</p>	✓		